# Addasiadau Tai

Cyngor Caerdydd

Mehefin 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid ei ailddefnyddio’n gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru, a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Pan fyddwn wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- E-bostiwch ni yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Ciplun archwiliad | | 4 |
| Ffeithiau a ffigurau allweddol | | 7 |
| Ein canfyddiadau | | 9 |
| Argymhellion | | 18 |
| Atodiadau | | 20 |
| 1 | Ynglŷn â'n gwaith | 21 |
| 2 | Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 23 |
| 3 | Amdanom ni | 24 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn yr edrychwyd arno

1 Fe wnaethom edrych ar sut mae Cyngor Caerdydd (y Cyngor) yn cynllunio ac yn cyflawni addasiadau tai i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i aros yn eu cartrefi.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae addasiadau tai yn newidiadau i gartref sy'n ei gwneud hi'n haws i blant, pobl ifanc ac oedolion symud o gwmpas. Gallant helpu i atal cwympiadau neu leihau'r angen am ofal ffurfiol a derbyniadau diangen i leoliadau gofal. Gallai enghreifftiau o addasiadau tai gynnwys:

- gosod rampiau neu ganllawiau cydio;
- ychwanegu lifft risiau neu lifft hygyrch i gadeiriau olwyn;
- gosod cawod â mynediad gwastad neu sedd gawod;
- gwneud drysau'n lletach ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn.

3 Mae'r Cyngor yn asesu anghenion pobl er mwyn penderfynu a ydyn nhw'n gymwys i gael cymorth. Os ydynt, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau, megis addasiadau tai neu offer, i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i aros gartref.

4 Adroddodd Archwilio Cymru yn flaenorol ar Addasiadau Tai yn 2018. Gwelsom system rhy gymhleth a oedd yn atgyfnerthu, yn hytrach na mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth ddarparu addasiadau.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, gwelsom nifer o gryfderau yn null gweithredu'r Cyngor o ran darparu addasiadau tai i gefnogi pobl i aros gartref.

- mae gan y Cyngor ddull integredig ac sy'n canolbwyntio ar atal;
- mae'n tynnu ar ddata yn dda i lywio ei ddull gweithredu;
- cwblhaodd adolygiad cynhwysfawr o'i ddull gweithredu ac ers hynny mae wedi cymryd camau i wella prydlondeb ac effeithlonrwydd y gwaith o gyflawni addasiadau;
- mae'n deall y galw am addasiadau tai ar gyfer oedolion;
- mae'n cynyddu ei adnoddau er mwyn asesu a chyflawni addasiadau tai;
- mae'n monitro ac yn adrodd yn rheolaidd ar ei weithgarwch a'i berfformiad o ran addasiadau tai;
- mae ganddo ganlyniadau corfforaethol clir ar gyfer addasiadau tai;
- mae'n nodi cyfleoedd ar gyfer osgoi costau darparu addasiadau tai i helpu i ddangos gwerth am arian.

6 O ran meysydd ar gyfer gwella, canfuom y canlynol:

- mae gwybodaeth ar wefan y Cyngor am addasiadau tai ar lefel uchel heb ganllaw cam wrth gam clir a gwybodaeth am amserlenni;
- mae'r Cyngor yn cwblhau nifer cyfyngedig o arolygiadau ar addasiadau tai wedi'u cwblhau;
- nid yw'r Cyngor yn rhagweld galw am addasiadau tai ar gyfer plant a phobl ifanc;
- nid yw'r Cyngor yn deall a yw'r canlyniadau y mae defnyddwyr gwasanaethau yn eu dymuno yn cael eu cyflawni gan addasiadau tai.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

7 Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad ar gyfer y Cyngor sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- cipio a chofnodi canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau;
- arolygu gwaith addasiadau tai wedi'i gwblhau;
- rhagweld y galw am addasiadau tai ar gyfer plant a phobl ifanc;
- gwella gwybodaeth am addasiadau tai ar ei wefan.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

Cyfanswm yr atgyfeiriadau Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl a dderbyniwyd gan Gyngor Caerdydd:

2023-24: 1,280

2024-25: 1,102

2025-26: 1,156

Nifer yr atgyfeiriadau Grant Cyfleusterau i Blant a Phobl Ifanc Anabl a dderbyniwyd gan Gyngor Caerdydd:

2023-24: 25

2024-25: 35

2025-26: 38

Cost gyfartalog darparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yng Nghaerdydd:

2023-24: £7,808

2024-25: £7,180

2025-26: £6,838

Cost gyfartalog darparu Grant Cyfleusterau i Blant a Phobl Ifanc Anabl yng Nghaerdydd:

2023-24: £18,677.30

2024-25: £12,105.22

2025-26: £18,358.27

Cyfartaledd Cymru ar gyfer cyfradd y boblogaeth fesul 100,000 sy'n derbyn llety gofal hirdymor yw 554.6 o bobl. Cyfradd y Cyngor yw 338.6 o bobl fesul 100,000.

# Ein canfyddiadau

## Cynllunio

**Mae gan y Cyngor ddull clir, ystyriol o ddata, integredig i gefnogi pobl i aros gartref**

### Pwysigrwydd strategol

8 Gall y Cyngor ddangos yn glir bod darparu addasiadau tai yn cefnogi ei flaenoriaethau. Mae addasiadau tai yn rhan allweddol o ddull gweithredu'r Cyngor o ran atal. Maent yn cefnogi cyflawni amcan llesiant y Cyngor 'Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn' a'i 'Strategaeth Heneiddio'n Dda 2022-27' gyda gweithgarwch gweithredol wedi'i nodi yng Nghynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth. Mae'r Cyngor yn nodi'n glir pa mor bwysig yw darparu addasiadau tai.

9 Pan na ellir addasu cartref, mae'r Cyngor yn adeiladu cartrefi newydd, hygyrch i bobl hŷn. Mae gan y Cyngor hefyd dîm sy'n gweithio mewn ysbytai i gefnogi'r broses o ryddhau o'r ysbyty yn gyflymach. Mae ganddo eiddo 'cam-i-lawr' i letya pobl dros dro sy'n barod i gael eu rhyddhau ac sy'n aros i addasiadau gael eu gosod. Mae'r camau hyn yn helpu pobl i aros mewn amgylchedd cartref, a gallant oedi, lleihau neu osgoi'r angen am wasanaethau gofal ychwanegol. Mae'n fuddiol i drigolion a gall leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill. Dros amser, gall y dull hwn wneud gwell defnydd o adnoddau cyhoeddus a gall arwain at arbedion costau hirdymor.

## Dull gweithredu Addasu Tai

10 Mae gan y Cyngor Wasanaeth Byw'n Annibynnol sy'n dod â gwahanol wasanaethau at ei gilydd i asesu anghenion pobl, darparu addasiadau a chynnig cymorth gofal ehangach. Gall hyn helpu pobl i gael y cymorth cywir yn gynt, gan atal problemau rhag gwaethygu.

11 Mae gan y Cyngor ddull gweithredu clir a chynhwysfawr o ran asesu a chyflawni addasiadau tai ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc. Mae gweithdrefnau gweithredol yn cefnogi cyflawni gwasanaeth dyddiol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn nodi cyfrifoldebau ac amserlenni swyddogion, gan helpu i sicrhau gwasanaeth cyson.

12 Canfuom y gallai'r wybodaeth am addasiadau tai ar wefan y Cyngor fod yn well er mwyn helpu defnyddwyr gwasanaethau i ddeall y broses yn glir. Mae'r wefan yn darparu trosolwg lefel uchel o'r mathau o addasiadau a gefnogir, cyllid a chymhwysedd. Fodd bynnag, nid oes canllaw cam wrth gam clir a gwybodaeth am amserlenni. Nid yw polisi Tai’r Sector Preifat, sy'n cynnwys gwahanol opsiynau addasu tai, ar gael i'r cyhoedd. Gall cael gwybodaeth glir helpu ymgeiswyr i ddeall y broses ar bob cam a gall eu paratoi'n well ar gyfer addasiad i'w cartref.

## Deall y galw

13 Mae'r Cyngor yn defnyddio ystod eang o ddata i ddeall galw presennol ac yn y dyfodol. Mae'n cyfuno data demograffig, data gweithgarwch gweithredol, asesiadau llesiant, ac ymchwil genedlaethol i ddeall y galw am addasiadau tai i oedolion. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor ragweld anghenion a blaenoriaethu gweithgarwch ataliol.

14 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y galw am addasiadau tai ar gyfer plant a phobl ifanc. Gall darparu addasiadau i blant a phobl ifanc eu cefnogi nhw a'u teuluoedd wrth iddynt dyfu i fyny. Mae cost gyfartalog addasiad ar gyfer plentyn yn uwch nag addasiad ar gyfer oedolyn. Byddai rhagweld y galw yn helpu'r Cyngor i gynllunio sut mae'n defnyddio ei adnoddau i ateb y galw hwn wrth gefnogi plant a'u teuluoedd.

# Cyflawni

## Mae'r Cyngor yn nodi'n rhagweithiol sut y gall ddefnyddio ei adnoddau i gyflawni addasiadau yn gyflymach

### Adnoddau – Asesu addasiadau tai

15 Mae'r Cyngor yn archwilio ffyrdd o wella prydlondeb asesu atgyfeiriadau ar gyfer addasiadau tai. Mae'r Cyngor yn treialu hyfforddi gofalwyr cartref fel Aseswyr Dibynadwy i ragnodi offer a mân addasiadau.[1] Os yw'n llwyddiannus, gallai'r dull hwn leihau'r llwyth gwaith ar therapyddion galwedigaethol y gwasanaeth a'u galluogi i ganolbwyntio ar yr atgyfeiriadau mwy cymhleth.

### Adnoddau – Cyflawni addasiadau tai

16 Mae'r Cyngor yn rhagweithiol wrth ddangos sut mae'n manteisio i'r eithaf wrth ddefnyddio ei adnoddau i gyflawni addasiadau tai. Mae'n amcangyfrif y gall un addasiad arbed tua £45,500 mewn costau gofal dros dair blynedd yn seiliedig ar ddarparu dwy awr o ofal dyddiol. Mae'r Cyngor hefyd yn lleihau costau trwy adnewyddu offer trwy'r Storfa Offer ar y Cyd. Mae deall ac amlygu arbed costau yn helpu i ddangos sut y gall addasiadau, cymhorthion ac offer tai ddarparu gwerth da am arian drwy weithgarwch ataliol ac ymyrraeth gynnar y Cyngor.

17 Mae'r Cyngor yn cynyddu nifer y contractwyr i gyflawni addasiadau tai. Mae gan y Cyngor hefyd fframwaith ar wahân gyda Gofal a Thrwsio i gyflwyno addasiadau ar raddfa fach. Gall cael digon o gontractwyr leihau'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau gwaith gan ei gwneud yn fwy tebygol y bydd defnyddwyr gwasanaethau yn gallu aros yn ddiogel yn eu cartrefi.

[1] Mae Aseswr Dibynadwy yn rhywun sy'n gweithredu ar ran sefydliadau lluosog a chyda'u caniatâd i gynnal asesiad o anghenion iechyd a/neu gofal cymdeithasol mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol.

18 O 2026-27 ymlaen, lleihaodd y Cyngor ei gyllideb gyfalaf i gyflawni addasiadau tai. Roedd hyn ar ôl dadansoddi data ar y galw a newid arferion gwaith i leihau costau gosod. Mae hyn yn dangos sut mae'r Cyngor yn defnyddio data i reoli ei adnoddau yn gyfrifol.

# Adolygu

## Mae'r Cyngor yn dysgu, monitro ac adrodd ar berfformiad yn rhagweithiol, ond mae'n gwneud arolygiadau cyfyngedig i asesu ansawdd yr addasiadau

### Rheoli perfformiad

19 Mae gan y Cyngor wybodaeth gynhwysfawr am berfformiad y mae'n ei holrhain yng nghyfarfodydd misol ei reolwyr. Mae rheoli perfformiad rheolaidd yn galluogi'r Cyngor i nodi tueddiadau neu faterion sy'n dod i'r amlwg mewn modd amserol. Gall ganiatáu i'r gwasanaeth ymateb yn gyflymach a chryfhau'r broses o wneud penderfyniadau.


20 Mae uwch swyddogion ac aelodau yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch perfformiad addasiadau tai. Mae'r Cyngor yn adrodd am y rhain yn ei adolygiadau canol blwyddyn a blynyddol. Mae'r Pwyllgor Craffu Oedolion, Tai a Chymunedau hefyd yn derbyn diweddariadau bob chwe mis trwy'r Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth. Ym mis Ionawr 2026, cafodd y Pwyllgor hwn sesiwn friffio ar Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl (DFGs). Mae'r adroddiadau hyn yn helpu'r Cyngor i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad. Mae'n rhoi cyfle i aelodau herio a chraffu ar berfformiad sy'n cefnogi dealltwriaeth a gwneud penderfyniadau.

## Cymhwyso dysgu

21 Mae'r Cyngor yn defnyddio ei ddata, ei ddefnyddwyr gwasanaethau a'i ymgysylltiad â staff i lunio camau gweithredu i wella ei ddull gweithredu. Yn 2025, cwblhaodd y Cyngor adolygiad cynhwysfawr 'Fel y mae'. Roedd hwn yn mapio taith y defnyddiwr gwasanaethau ac yn dadansoddi'r amser a gymerwyd i gwblhau pob cam o addasiad. Mae'r Cyngor bellach yn bwrw ymlaen â'i gynllun gweithredu i wella prydlondeb, profiad dinasyddion, adrodd a rheoli galw.

22 Fel y dangosir yn Arddangosyn 1, mae'r Cyngor yn gweld gwelliant yn yr amser y mae'n ei gymryd i gyflawni DFG o 232 diwrnod yn 2024-25 i 152 diwrnod yn 2025-26.

### Arddangosyn 1: Nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i gyflawni Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl ar draws holl werthoedd grant





Ffynhonnell: Data'r Cyngor

23 Mae gan y Cyngor darged o 185 diwrnod i gyflawni DFG. Fel y dangosir yn **Arddangosyn 1**, cyflawnodd y Cyngor hyn yn 2025-26. Yn y dyfodol, nod y Cyngor yw lleihau amser cyflawni trwy gynyddu capasiti contractwyr a thrwy barhau i gyflawni ei gynllun gweithredu. Mae hyn yn dangos uchelgais y Cyngor ar gyfer gwelliant parhaus.


24 Mae'r Cyngor hefyd yn casglu data perfformiad yn seiliedig ar gost neu werth cyflawni DFGs. Mae DFGs yn amrywio o ran cost yn dibynnu ar anghenion person. Mae grantiau gwerth uwch yn aml yn cymryd mwy o amser i'w cyflawni oherwydd gallant gynnwys gwaith adeiledd mawr. Mae grantiau gwerth uwch yn llai cyffredin ond gallant ystumio data perfformiad. Mae'r Cyngor hefyd yn grwpio cyflawni DFGs yn ôl gwerth: o dan a thros £10,000. Mae hyn yn caniatáu dealltwriaeth fwy cywir o berfformiad y Cyngor. Fel y dangosir yn **Arddangosion 2 a 3**, mae'r Cyngor yn gwella'r amser y mae'n ei gymryd i gyflawni DFGs yn y ddau gategori.

**Arddangosyn 2: Nifer cyfartalog y diwrnodau i gwblhau Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl sydd â gwerth llai na £10,000**




Ffynhonnell: Data'r Cyngor

**Arddangosyn 3: Nifer cyfartalog y diwrnodau i gwblhau Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl sydd â gwerth mwy na £10,000**




Ffynhonnell: Data'r Cyngor

### Monitro ansawdd addasiadau tai

25 Mae'r Cyngor yn arolygu nifer cyfyngedig o addasiadau wedi'u cwblhau. Mae'n arolygu tua 10% o'r gwaith wedi'i gwblhau. Gall y ganran isel hon gyfyngu ar sicrwydd y Cyngor bod addasiadau o'r ansawdd a ddisgwylir.

# Effaith

## Mae gan y Cyngor ganlyniadau corfforaethol clir ar gyfer addasiadau tai ond nid yw'n asesu a yw addasiadau yn cyflawni canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau

26 Mae'r Cyngor yn glir ynghylch y canlyniadau y mae eisiau eu cyflawni yn sgil addasiadau tai. Mae eisiau:

- hyrwyddo annibyniaeth;
- galluogi pobl i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain trwy ddiddymu’r angen am ofal preswyl a chartref;
- rhoi mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau eu hunain.

27 Mae'r canlyniadau'n cyd-fynd â gweithgarwch ataliol y Cyngor, a gall y Cyngor ddangos effaith. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae ganddo'r gyfradd isaf yng Nghymru ar gyfer nifer y bobl fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn llety cartrefi gofal hirdymor. Gall gwaith cyflawni addasiadau tai gan y Cyngor ynghyd â gwaith gwasanaethau eraill o fewn y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol fod yn rhesymau dros y lefel isel hon o angen am lety gofal preswyl.

28 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gwybod a yw'n cyflawni canlyniadau y mae ddefnyddwyr gwasanaethau unigol yn eu dymuno. Ar y dechrau, mae'n casglu gwybodaeth am ganlyniadau y mae defnyddwyr gwasanaethau yn eu dymuno. Ond dim ond yn ddiweddar y mae'r Cyngor wedi ailddechrau casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar ôl cwblhau addasiad. Mae cyfraddau ymateb wedi bod yn isel.

29 Mae deall a yw addasiadau tai yn cyflawni’r canlyniadau a ddymunir gan ddefnyddwyr gwasanaethau hefyd yn cael ei rwystro gan ddiffyg rhyngwyneb rhwng y systemau TG a ddefnyddir. Nid yw'r Cyngor yn olrhain taith person drwy'r broses na’i gysylltiad â'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol ehangach. Mae'r Cyngor yn archwilio sut y gall alinio ei wahanol systemau TG er mwyn:

- Olrhain canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau:
- Monitro anghenion ailadroddol defnyddwyr gwasanaethau.

30 Os yw'r Cyngor yn gallu alinio ei systemau TG gan wella ei gyfradd casglu adborth hefyd, byddai'r Cyngor mewn sefyllfa well i asesu a yw addasiadau yn cyflawni canlyniadau y mae unigolion yn eu dymuno.

# Argymhellion

**A1 Gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd**

Mae gwybodaeth lefel uchel am addasiadau tai ar wefan y Cyngor ond nid yw'n cynnwys digon o wybodaeth i baratoi defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer addasiad i'w cartref.

**1.1** Gwella gwybodaeth am addasiadau tai sydd ar gael i'r cyhoedd i hysbysu a pharatoi defnyddwyr gwasanaethau yn well **(paragraff 12)**.

**A2 Rhagweld Galw ar gyfer Plant a Phobl Ifanc**

Er bod y Cyngor yn defnyddio ystod eang o ddata i ddeall beth yw'r galw am addasiadau tai presennol ac yn y dyfodol ar gyfer oedolion, nid yw'n rhagweld y galw am addasiadau tai ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

**2.1** Dylai'r Cyngor ddefnyddio data i ragweld y galw am addasiadau tai ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn cryfhau'r broses o gynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol **(paragraff 14)**.

**A3 Arolygiadau Addasiadau Tai**

Mae'r Cyngor yn arolygu 10% o'r gwaith addasu tai sydd wedi'i gwblhau.

**3.1** Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau i archwilio addasiadau tai wedi'u cwblhau er mwyn gwirio eu bod o'r ansawdd disgwyliedig **(paragraff 25)**.

**A4 Canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau**

Mae'r Cyngor yn casglu canlyniadau y mae defnyddwyr gwasanaethau yn eu dymuno ar ddechrau proses addasu tai ond ni all ddangos a yw'n cyflawni'r canlyniadau hyn ar y diwedd.

**4.1** Mae angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau i ddal a chofnodi p'un a yw canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cyflawni. Gall hyn helpu'r Cyngor i ddangos effaith ataliol darparu addasiadau tai i ddefnyddwyr gwasanaethau **(paragraff 28)**.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Ystyriodd yr archwiliad hwn p’un a yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer addasiadau tai yn cefnogi defnyddwyr gwasanaethau i aros gartref. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dull gweithredu, cyflawni a threfniadau monitro'r Cyngor.

Nid oedd yr archwiliad hwn yn cynnwys cyfweliadau â rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â chyflawni addasiadau tai. Nid ydym ychwaith yn cysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i gael eu hadborth ar y gwasanaeth a gawsant.

Fe wnaethom ymgymryd â'r gwaith maes ar gyfer yr archwiliad hwn ym mis Mawrth 2026.

## Cwestiynau

Defnyddiodd yr archwiliad hwn y cwestiynau lefel uchel canlynol:

- A oes gan y Cyngor ddull gweithredu clir ac yn seiliedig ar wybodaeth o ran addasu tai sy'n cefnogi pobl i aros gartref?
- A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddull gweithredu o ran addasu tai i gefnogi pobl i aros gartref?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i fonitro cynnydd ac effaith addasu tai i gefnogi pobl i aros gartref?

## Meini Prawf

Fe wnaethom ystyried adroddiad 2018 Archwilio Cymru ar Addasiadau Tai i ddatblygu'r meini prawf archwilio. Cawsom hefyd drafodaethau gyda chynghorau i ddeall Addasiadau Tai ymhellach.

## Dulliau

Fe wnaethom adolygu dogfennau sy'n ymwneud â'r broses addasu tai. Fe wnaethom gyfweld â swyddogion allweddol ac aelodau etholedig.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

## Ystyr Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl (DFG)

Mae Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion anabl drwy wneud newidiadau hanfodol i'w cartrefi fel y gallant fyw'n ddiogel.

Mae'r grant yn cwmpasu newidiadau neu offer angenrheidiol i wella mynediad i'r cartref ac o amgylch y cartref.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gynghorau yng Nghymru i ddarparu'r grant hwn ac mae'n berthnasol i berchnogion tai, tenantiaid a landlordiaid.

## Ystyr gwerth am arian

Mae gwerth am arian yn golygu gwario arian mewn ffordd sy'n cael y canlyniadau gorau posibl am y gost. Mae gwerth am arian fel arfer yn gysylltiedig â'r tri gair canlynol, darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rydym wedi crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Darbodaeth: prynu'r hyn sydd ei angen am y gost synhwyrol isaf i helpu i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.
- Effeithlonrwydd: defnyddio adnoddau'n dda i helpu i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.
- Effeithiolrwydd: cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy.

Mae gan gynghorau ddyletswydd gyfreithiol i wirio a ydynt yn defnyddio arian ac adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Rhaid i gynghorau  hefyd feddwl am anghenion tymor byr a thymor hir wrth wneud penderfyniadau. Weithiau nid yr opsiwn uniongyrchol rhataf sy’n cynnig y gwerth am arian gorau ond yr un sy'n atal problemau a chostau mwy yn ddiweddarach.

# 3 Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.